

Digimap for Schools

Patrymau Defnydd Tir

Paula Owens

Adnoddau addysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llw o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Patrymau Defnydd Tir

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 2	Edrych ar ardaloedd gwahanol ym Mhrydain Fawr a chymharu defnydd tir.	Unrhyw le ym Mhrydain Fawr.

Gwybodaeth	Tynnu llun ac amlygu ardaloedd.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Enwi a dod o hyd i batrymau defnydd tir yn y DU. Deall nodweddion daeryddol tebyg a gwahanol. Defnyddio mapio digidol i ddisgrifio'r nodweddion a astudir.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Defnyddio mapiau, delweddau a TGCh i ddod o hyd i wybodaeth leoliadol a'i chyflwyno. Amlygu a disgrifio patrymau gofodol (dosbarthiadau) lleoedd ac amgylcheddau.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd: SOC 2-13a; SOC 2-08b.

Gweithgaredd

Dod o hyd i batrymau defnydd tir syml a'u hamlygu, fel ardaloedd adeiledig a heb fod yn adeiledig, a defnyddio hyn i gynnig rhesymau pam mae pethau ble maen nhw, ac esbonio sut a pham mae lleoedd yn wahanol.

Cyflwyniad

Mae'r gweithgaredd hwn yn datblygu sgiliau arsylwi a dehongli gan fod yn rhaid i ddisgyblion amlygu gwahanol fathau o ddefnydd tir ar y mapiau. Mae edrych ar batrymau defnydd tir ar fapiau yn helpu plant i ystyried pam mae nodweddion wedi'u lleoli ble maen nhw, a sut mae lleoedd wedi datblygu dros amser. Pan mae lleoedd gwahanol yn cael eu cymharu ar yr un raddfa, er enghraifft, 1:25 000, mae'n amlygu rhai o'r nodweddion tebyg a gwahanol rhyngddynt hefyd.

Mae'r cyflwyniad 'Patrymau Defnydd Tir' yn rhoi enghreifftiau o fapiau sy'n dangos cymariaethau defnydd tir mewn pedwar lle arfordirol gwahanol: Cei Newydd, Ceredigion ar arfordir gorllewin Cymru; Weymouth, Dorset, ar arfordir de Lloegr; Fraserburgh, Swydd Aberdeen ar arfordir dwyrain yr Alban, ac Ullapool yn yr Ucheldiroedd, ar arfordir gorllewin yr Alban.

Digimap for Schools


<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Prif weithgaredd


Yr offeryn allweddol y byddwch yn ei ddefnyddio ar gyfer y gweithgaredd hwn fydd yr offeryn 'Draw Area' (tynnu llun ardal). Penderfynwch pa leoedd rydych chi eisiau eu cymharu a'r patrymau defnydd tir rydych yn mynd i'w hamlygu. Dylid meithrin hyder a gellir dechrau trwy ddefnyddio un lliw o'r offer *Annotation* (anodi) i amlygu un math o ddefnydd tir, er enghraifft, ardaloedd adeiledig. Yna symudwch ymlaen i gynnwys mathau eraill o ddefnydd tir, er enghraifft, ardaloedd o goetir; safleoedd gwersyllfa a charafannau; gwarchodfeydd natur neu barciau gwledig. Cytunwch ar allwedd lliw gan ddefnyddio'r opsiynau ar *Digimap for Schools* ymlaen llaw er mwyn i bob map fod yn gymaradwy. Mae'n ddefnyddiol defnyddio delweddau awyrol ac awyrluniau digidol i ddangos a siarad am batrymau defnydd tir.

Tasgau

1. Agorwch *Digimap for Schools* a rhowch y term chwilio ar gyfer eich lle dewisol yn y blwch chwilio, er enghraifft, 'Weymouth'. Cloiwrch i Lefel 8 gan ddefnyddio'r Bar Graddfa (pan rydych wedi llacio yr holl ffordd, rydych ar Lefel 1, Lefel 2 sydd nesaf ac yn y blaen, hyd nes i chi gyrraedd Lefel 12, sydd wedi cloio'r holl ffordd). Dylech allu gweld ardaloedd adeiledig a heb fod yn adeiledig ar y map.
2. Penderfynwch pa fath o ddefnydd tir yw'r mwyaf ar y map a dechreuwch trwy ei amlygu. Agorwch y bar offer *Annotation* (anodi) a dewiswch liw a thryloywder i ddechrau. Dewiswch y lliw gan ddefnyddio 'Outline options' (dewisiadau amlinellu) a 'Fill options' (dewisiadau llenwi) (mae'n ddefnyddiol bod y lliw amlinellu a llenwi yr un peth). Gwnewch yn siŵr bod 'Transparency' (tryloywder) wedi'i osod ar 50%.



3. Dewiswch 'Draw an Area' (tynnu llun ardal), yna dewiswch 'Draw a freeform shape' (tynnu llun siâp ffurfrydd). Cliciwch a daliwch ar y lle ble rydych chi eisiau dechrau, a llusgwch y pwyntydd o gwmpas ymyl y siâp yn araf. Rhyddhewch y clic pan fyddwch wedi gorffen. Gallwch ymarfer gwneud hyn a dileu'r ardal a dechrau eto hyd nes eich bod chi'n hapus. Cofiwch, nid ydych chi'n ceisio dangos pob manylyn, dim ond y siâp cyffredinol. Efallai bod rhai ardaloedd yn rhy fawr i'w cynnwys ar yr un pryd, felly gallwch ychwanegu darnau ychwanegol.



4. Ar ôl i chi orffen tynnu llun ardal, symudwch y map o gwmpas i weld beth y gallech dynnu llun o'i gwmpas nesaf, naill ai trwy glacio a llusgo'r map, neu ddefnyddio'r saethau cyfeiriad.
5. Os ydych yn amlygu ardal arall, ewch yn ôl a dewis y lliw 'Fill' (llenwi) ac 'Outline' (amlinellu) cywir yn gyntaf, ac ailadrodd. Os ydych yn gwneud camgymeriad, defnyddiwch yr offeryn 'Delete features' (dileu nodweddion) a chliciwch yn ofalus ar y siâp rydych chi eisiau ei ddileu.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>



6. Argraffwch eich map, gan ddewis 'Portrait' (portread) neu 'Landscape' (tirlun), a dewis 'show grid lines' (dangos llinellau grid). Dewiswch edrych ar y map cyn i chi ei argraffu gan y bydd hyn yn golygu y gallwch wirio a yw'r raddfa iawn y mae eich dosbarth wedi penderfynu arni, er enghraifft, 1:25 000. Mae angen i'r holl fapiau fod yr un raddfa er mwyn eu cymharu. Cadwch eich map er mwyn i chi ddod yn ôl ato ac ychwanegu mwy o fanylion yn ddiweddarach.

Trafodwch ble mae'r ardaloedd adeiledig ar bob map a sut mae anheddau wedi'u trefnu. Ble mae'r lleoedd agored? Ble mae'r ardaloedd hamdden, fel parciau carafannau a gwersylla, neu goedwigoedd? Pam maen nhw yno? Pam mae rhai patrymau yn stopio'n sydyn? Er enghraifft, efallai bod ffin naturiol, fel clogwyn neu goedwig, neu ffin gwneud, fel ffordd. Ewch yn ôl i'r mapiau digidol i glosio a dod o hyd i atebion.

Os yw eich dosbarth wedi llunio mapiau ar gyfer lleoedd gwahanol, edrychwch arnyn nhw nesaf at ei gilydd a thrafodwch y nodweddion tebyg a gwahanol.

Mynd gam ymhellach

- Rhowch ddarnau o fapiau o wahanol leoedd sydd yr un maint ar gerdyn sgwâr a'u defnyddio ar gyfer arddangosfa gymharol.
- Defnyddiwch y patrymau lliw i ysgogi gwaith celf yn seiliedig ar yr hyn y mae pob lle yn ei ddangos.
- Agorwch y mapiau sydd wedi cael eu cadw ac ychwanegwch fwy o fanylion. Defnyddiwch y 'Measuring Tool' (offeryn mesur) i fesur ardal, er enghraifft, yr ardaloedd adeiledig, ac yna eu labelu.
- Ceisiwch ychwanegu allwedd at y map. Gellir gwneud hyn trwy ddewis lliw amlinellu a llenwi perthnasol, yna dewis 'Draw a fixed shape area' (tynnu llun ardal siâp penodol). Cliciwch rhywle ar y map lle byddwch yn gallu ei weld. Yna dewiswch 'Place Label' (gosod label) a chliciwch nesaf ato. Nodwch yr hyn y mae'r lliw yn ei ddangos.
- Defnyddiwch yr offeryn Area (ardal) i amlygu'r holl Barciau Cenedlaethol ym Mhrydain Fawr. Ymchwiliwch a chymharwch nhw.
- Ystyriwch fanteision ac anfanteision datblygiad defnydd tir arfaethedig a thrafodwch yr effaith y gall hwn ei gael ar y gymuned.
- Ymchwiliwch i batrymau defnydd tir gan ddefnyddio delweddau o'r gofod.

Dolenni ar y we

Delweddau o'r Ddaear o'r gofod gan NASA <http://visibleearth.nasa.gov/>

Delweddau Awyrol www.bing.com/maps

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*

